



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Taf – L009

Mawrth 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@ov.wales

Proffil

Mae Cymdeithas Tai Taf ("Taf" neu "y Gymdeithas") yn gymdeithas dai draddodiadol a chymunedol a sefydlwyd yn 1975. Mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae gan Taf dros 1,400 o gartrefi yn ardaloedd Treganna, y Tyllgoed, Grangetown, Glan yr Afon a Butetown yng Nghaerdydd, yn ogystal â phrosiectau tai â chymorth arbenigol i ferched ifanc yn y Rhath a Threganna.

Yn ogystal â thai anghenion cyffredinol, mae'r Gymdeithas yn darparu cymorth o ran tai, gan gynnwys amrywiaeth o wasanaethau cymorth arbenigol, i fwy na 600 o ddefnyddwyr gwasanaeth yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae hefyd yn darparu tua 240 o dai â chymorth yn y De-ddwyrain. Mae'r cymdeithas yn rhedeg Adore Lettings; asiantaeth gwerthiant a gosodiadau.

Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2016/17	2017/18		2016/17
Perfformiad				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	23.1%	17.9% *	n/a	21.3%
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	11.8%	5.8%	n/a	6.5%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.0%	1.0%	n/a	2.0%
Cyllid				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	69%	77%	n/a	74%
Geriad (net worth basis)	43%	49%	55%	61%
Sicrwydd llog	210%	207%	110%	172%
*Mae'r gwarged gweithredu ar gyfer 2017/18 yn cynnwys addasiadau ar gyfer cyfrifo cydrannol ac ar gyfer amhariad mewn gwerth eiddo. Heb hyn byddai'r gwarged gweithredu yn 21.9% fel % o'r trosiant.				
Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.				

Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2019

Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.